# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR RHAGLEN CHRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE, DYDD LLUN, 10 HYDREF 2016 AM 4.30 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A C S Colburn | S E Crouch | N J Davies |
| E W Fitzgerald | T J Hennegan | J W Jones |
| E J King | G Owens | G J Tanner |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | C A Holley |

**Hefyd yn bresennol: -**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Francis-Davies, | Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio |
| Y Cynghorydd D W Cole | Cynullydd – Gweithgor Cadw Coed |
| Mr A M Thomas | Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Wendy Parkin | Uwch-gyfreithiwr |
| Jeff Saywell | Arweinydd y Tîm Tirlunio |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, U C Clay, C R Evans, F M Gordon, P R Hood-Williams a/ac P M Meara

72 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

73 **GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

74 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 12 Medi 2016 fel cofnod cywir.

75 **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

76 **SESIWN HOLI AELOD Y CABINET: AELOD Y CABINET DROS FENTER, DATBLYGU AC ADFYWIO, (Y CYNGHORYDD ROBERT FRANCIS-DAVIES).**

Rhoddodd y Cynghorydd R Francis-Davies anerchiad agoriadol byr am ei bortffolio cabinet cyn derbyn cwestiynau gan y pwyllgor a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Canol y Ddinas
- Canolfan Ddinesig
- Dinas-ranbarth/Bargen Ddinesig
- Canolfannau Maestrefol
- Diwylliant (Celfyddydau)
- Cefnogi NEETS
- Addysg Menter
- Prifysgolion
- Cyllid Ewropeaidd ac Allanol
- Cadw Coed
- Cynllunio

Roedd y sesiwn yn cynnwys camau dilynol ar waith y Gweithgor Craffu Cadw Coed, a oedd wedi gwneud nifer o argymhellion i Aelod y Cabinet. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ysgrifenedig i'r pwyllgor gan Aelod y Cabinet. Roedd y Cynghorydd D W Cole, Cynullydd y gweithgor, yn bresennol i wneud sylwadau a gofyn cwestiynau. Roedd y Cynghorydd yn fodlon ar y cynnydd a wnaed, gan annog hynny a chanmol ymdrechion Tîm Tirlunio'r cyngor. Roedd y pwyllgor yn croesawu datblygu polisi coed, a fyddai ymysg pethau eraill yn cynnwys ailblannu coed ar dir y cyngor.

Roedd y Cynghorydd Francis-Davies yn croesawu'r gwaith craffu hwn, gan sicrhau'r pwyllgor bod y canfyddiadau wedi'u hystyried yn llawn. Nododd y pwyllgor fod rhai argymhellion ar waith o hyd; ymysg y rhain, cadarnhaodd Aelod y Cabinet fod goblygiadau gosod Gorchmynion Cadw Coed ar dir y cyngor cyn ei werthu'n cael eu trafod. Roedd pryder ymhlith cynghorwyr bod llawer o goed wedi'u colli drwy werthu tir y cyngor oherwydd y methiant i warchod coed.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet am ei sylwadau a'i arsylwadau.

**PENDERFYNWYD** y dylai Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan gyfleu manylion y drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

77 **BWLETIN BLYNYDDOL AR BERFFORMIAD LLYWODRAETH LEOL 2015-16.**

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad perfformiad cenedlaethol, a gyhoeddwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru, a fyddai'n ddefnyddiol wrth gefnogi a llywio gwaith craffu yn Abertawe.

Cyfeiriodd at berfformiad yr awdurdod o ran Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a fyddai'n parhau i gael ei fonitro gan y Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid.

78 **CYNLLUN GWAITH AC ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO (BYDD CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO, ALAN THOMAS, YN BRESENNOL).**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Mr Alan Thomas, gynllun gwaith ac adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio ac roedd yn bresennol i gefnogi'r broses o ddatblygu'r berthynas rhwng y Tîm Craffu a'r Pwyllgor Archwilio a chydlynu cynlluniau gwaith.

Amlinellwyd mai diben y drafodaeth oedd sicrhau cydymwybyddiaeth, osgoi dyblygu a sicrhau na fydd bylchau'n ymddangos yn y cynlluniau gwaith.

Tynnodd sylw at y ffaith fod y Pwyllgor Archwilio'n ymdrin â chael sicrwydd o ran materion ariannol y cyngor, yn enwedig rheoli risg, rheoli mewnol, trefniadau llywodraethu corfforaethol cyffredinol a datganiadau ariannol. Yn ogystal, roedd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn monitro trefniadau archwilio mewnol ac allanol y cyngor.

Nododd enghreifftiau lle’r oedd gwaith y Pwyllgor Archwilio a Chraffu wedi cyd-fynd â'i gilydd, gyda llywodraethu ysgolion a materion cynllunio'n cael eu hymchwilio a'u harchwilio.  Roedd Mr Thomas yn glir am wahanol rolau gan sôn am swyddogaeth craffu i ystyried materion yn fanwl.

Cyfeiriodd at y gwiriad iechyd diweddar a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a chyflwyniad blaenorol a ddarparwyd ganddynt a oedd yn amlinellu rôl y Pwyllgor Archwilio. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan Swyddfa Archwilio Cymru o ran y gwaith roedd wedi'i wneud i wella gwasanaethau, ond cydnabuwyd bod angen gwella llawer o feysydd o hyd. Roedd y pwyllgor yn cymharu'n ffafriol â phwyllgorau archwilio eraill ar draws Cymru.

Byddai'r Pwyllgor Archwilio'n archwilio nifer o bartneriaethau ac achosion o gydweithredu'n lleol, yn enwedig eu llywodraethu effeithiol, eu hallbwn a'u gwerth am arian.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, a ymatebodd yn briodol. Roedd trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol yn bennaf: -

- Arferion llywodraethu da mewn ysgolion;
- Archwiliadau ysgolion, cronfeydd wrth gefn a gedwir gan ysgolion yn Abertawe, gwaith ymgynghorwyr herio, yr adolygiad sydd ar ddod o faterion gyda'r Prif Swyddog Addysg;

- Y pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol o ran ysgolion a chanddynt gronfeydd wrth gefn sylweddol;
- Mewnbwn Swyddfa Archwilio Cymru ar waith y Pwyllgor Archwilio a'r berthynas gadarnhaol sy'n cael ei meithrin ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD**: -

1) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Dosbarthu cyflwyniad Swyddfa Archwilio Cymru o ran rôl y Pwyllgor Archwilio i'r pwyllgor.

79 **RHAGLEN WAITH CRAFFU 2016/17.**

Cyflwynodd y cadeirydd raglen waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2016/17.

Darparodd yr adroddiad y canlynol i'r pwyllgor:

- Y Rhaglen Waith Craffu bresennol;
- Cynllun ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor y dyfodol;
- Adroddiad cynnydd am y paneli a'r gweithgorau presennol amrywiol; a
- Blaengynllun y Cabinet ar gyfer cyfleoedd i graffu cyn penderfynu.

Cyfeiriodd at adolygiadau comisiynu Priffyrdd a Chludiant a Pharciau a Glanhau a ddisgwylir ym mis Rhagfyr 2016, a fyddai'n destun craffu cyn penderfynu.

Ychwanegwyd bod cyfarfodydd yn cael eu trefnu ar gyfer y Gweithgor Craffu HMO newydd a byddai manylion yn cael eu dosbarthu maes o law.

Mynegodd y Cynghorydd Chris Holley, Cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Pherfformiad Cyllid, siom nad oedd ei banel wedi trafod adroddiad y gofynnwyd amdano ar Ffïoedd a Thaliadau, a ddisgwyliwyd yn wreiddiol ym mis Mehefin 2016. Cynigiodd y Cadeirydd anfon llythyr ymlaen at yr Arweinydd/Prif Weithredwr ar ran y panel i dynnu sylw at y mater hwn a phryder y panel.

Rhoddodd y Cydlynydd Craffu wybod i'r pwyllgor fod Mrs Beverley Phillips, Pennaeth Ysgol Gynradd Blaenymaes, wedi'i chyfethol i'r Panel Trechu Tlodi.

**PENDERFYNWYD**: -

1) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Anfon llythyrau ymlaen at yr Arweinydd/Prif Weithredwr fel a amlinellir uchod.

80 **AELODAETH PANELI CRAFFU A GWEITHGORAU.**

Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i aelodaeth y Paneli/Gweithgor Craffu.

Amlinellwyd diwygiad i aelodaeth bresennol y Paneli/Gweithgor Craffu o ran:

- Y Panel Ymchwiliad Craffu Trechu Tlodi – dileu enw'r Cynghorydd A J Jones

Nodwyd aelodaeth y Gweithgor Craffu newydd i ystyried Tai Amlfeddiannaeth, ar ôl mynegiannau o ddiddordeb, fel a ganlyn:

**Cynghorwyr Llafur: 5**

| | |
|---|---|
| S E Crouch | H M Morris |
| N Davies | T J Hennegan |
| T M White | |

**Cynghorwyr Democratiaid Rhyddfrydol: 3**

| | |
|---|---|
| **Mary Jones (cynullydd)** | L G Thomas |
| T H Rees | |

**Independent Councillors: 3**

| | |
|---|---|
| D W Cole | K E Marsh |
| E W Fitzgerald | |

**Cynghorydd y Ceidwadwyr: 1**

| | |
|---|---|
| A C S Colburn | |

**Cynghorydd Amhleidiol: 1**

| | |
|---|---|
| P N May | |

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r uchod.

81 **<u>LLYTHYRAU'R TÎM CRAFFU.</u>**

Adroddodd y Cadeirydd gofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

82 **<u>ADBORTH O DDIGWYDDIADAU CRAFFU DIWEDDAR.</u>**

Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau craffu'n ddiweddar.

83 **<u>DIGWYDDIADAU CRAFFU SYDD AR DDOD.</u>**

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau craffu ar ddod.

84 **<u>DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD PWYLLGOR YN Y DYFODOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2016/17 (POB UN AM 4.30PM).</u>**

NODWYD dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y pwyllgor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r pwyllgor fod y Pwyllgor Arbennig a drefnwyd ar gyfer 17 Hydref 2016 wedi'i ganslo oherwydd bod yr adroddiad am Sgwâr y Castell, a oedd i fod yn destun craffu cyn penderfynu, wedi'i dynnu yn ôl o'r Cabinet ar 20 Hydref 2016.

85 **DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD NESAF PANELI/GWEITHGORAU.**

Rhoddwyd dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod, 'er gwybodaeth’.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.58 pm

**CADEIRYDD**